# Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol De Eryri a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021 am 6.30 yh Cyfarfod Zoom Ar-lein

**Presennol – Aelodau:**

Mr Hedd Pugh
Mr Aled Thomas
Cyng John Pugh Roberts
Mr Alun Evans
Cyng Dewi Owen
Mrs Gaynor Davies
Cyng Eryl Jones Williams
Mrs Leslie Amison
Mr Delwyn Evans
Mr David Coleman
Mr Emlyn Roberts
Mrs Janette Holmes

**Swyddogion / Sylwedyddion:**

Peter Rutherford (APCE)
Mary Williams (CE)
Molly Lovatt (rhannol)
Rhys G Roberts (CG)
Julian Birley (Rheilffordd Ll. Tegid)

Croesawodd PR yr holl aelodau a swyddogion i'r cyfarfod

**1. Ymddiehuriadau** Mr Gwyn Lloyd Evans (CG)

**2. Datgan Budd**

**Dim**

**3. Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd**

Nododd PR nad oedd wedi derbyn llawer o ymatebion i'r enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd ac argymhellodd, o ystyried bod hwn yn ofyniad statudol (bod y Cadeirydd yn arwain yr ail gyfarfod) yna y gallai fod yn fwy doeth caniatáu i'r Cadeirydd blaenorol barhau am 12 mis, ac wedyn gallai aelodau benderfynu a oedd angen etholiad arall arnynt.

Cytunwyd bod Hedd Pugh yn parhau fel Cadeirydd am 12 mis.

Argymhellodd PR hefyd, er mwyn sicrhau cydbwysedd, y dylai'r swydd ar gyfer Is-gadeirydd, yn ddelfrydol, ddod o blith aelod o'r grwpiau defnyddwyr - byddai'n cylchredeg rhestr o'r aelodau hynny i'w galluogi i gael trafodaeth ymysg ei gilydd (neu drwy PR) i enwebu Is-gadeirydd.

**Cytunwyd** y byddai PR yn cylchredeg nodyn i aelodau'r grŵp defnyddwyr hynny.

**4. Cofnodion Blaenorol**

*Parhaodd HP fel Cadeirydd*

*Gofynnodd pwy oedd EN o dudalen 3 yn y cofnodion diwethaf.*

Ymddiheurodd PR mai Cadeirydd FfMLl y gogledd ydoedd - a bod yr adran benodol honno (ar e-feiciau) wedi'i ‘dorri a'i bastio’ o'u cofnodion am ei fod yr un pwnc. Byddai'n nodi'r camgymeriad hwnnw.

P11 (eitem 10) Hysbysodd PR yr aelodau, ar ôl proses ymgynghori hir ar ARAG, ei fod yn deall bod CNC bellach wedi ysgrifennu a chyflwyno adroddiad i'r Gweinidog yn dilyn trafodaethau. Er y bydd hyn yn cael ei ohirio gan yr etholiadau roedd yn obeithiol o ystyried y momentwm y byddai rhywbeth yn dod i'r amlwg gan fod llawer o'r materion wedi llusgo ymlaen cyhyd.

Pe bai unrhyw beth yn ymddangos yna byddai'n rhoi diweddariad i'r aelodau ar y cyfle cyntaf.

*T14 EJW. Gofynnodd a oedd PR yn cael y newyddion diweddaraf yn uniongyrchol gan Network Rail ynghylch cau traphont y Bermo.*

Atebodd PR nad oedd wedi derbyn unrhyw beth yn uniongyrchol ond ei fod yn cadw llygad ar y cynnydd. Ond roedd yn ddiolchgar i EJW am sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth - roedd hyn yn bwysig o ystyried ei gysylltiadau strategol â Bermo o lwybr y Fawddach a hefyd fel rhan o lwybr Arfordirol Cymru Gyfan. Roedd hefyd yn lledaenu'r wybodaeth hon i staff a phartïon eraill â diddordeb.

## 5. Materion yn Codi

### i) Diweddariad ar yrru oddi ar y ffordd – Bryncrug – Cwrt

Hysbysodd PR yr aelodau fod gan Gymdeithas y Lonydd Glas (GLASS) arian torfol i gynorthwyo i wneud atgyweiriadau i ran ganol wael iawn y Ffordd Anosbarthedig (FfA) rhwng Cwrt a Rhyd Yr Onnen. O ystyried ei leoliad anodd, roedd angen tua 80 tunnell o ddefnyddiau a gwaith symud gyda hofrennydd. Roedd y PC wedi cynnig hwyluso hyn a chynorthwyo gyda logisteg a diogelwch. Gobeithio y gallai hyn gael ei gynnwys ar yr ail ehediad yr hofrennydd a gynlluniwyd ar gyfer Cadair Idris yr haf hwn.

Dangosodd sleidiau yn dangos arwyddion y cytunwyd arnynt ar gyfer y system unffordd - mae hyn yn rhedeg o Rhyd Yr Onnen i Cwrt o'r gorllewin i'r dwyrain a gobeithio y byddai'r defnyddwyr yn cadw at hyn.

Byddai hyn hefyd yn helpu tirfeddianwyr i gael mynediad i'r ardal honno - mae'r gwaith wedi'i gwblhau.

Byddai'n gofyn i gynrychiolydd GLASS i ddod i un o gyfarfodydd y FfMLl i roi eu barn ar hyn pan ddaw’r cyfle.

*Dywedodd DO ei fod yn ymwybodol o rai materion ar lwybr Llyn Barfog.*

Ychwanegodd PR y bu cwyn yn ddiweddar am rai gweithgareddau amhriodol unwaith eto ar yr adran honno a'i fod wedi rhoi'r achwynydd mewn cysylltiad â chynrychiolydd GLASS i weld beth ellid ei wneud i liniaru hyn trwy negeseuon cyfryngau cymdeithasol, ond

roedd yn bwysig nodi nad oedd pob defnyddiwr oddi ar y ffordd yn aelodau o gymdeithasau ffurfiol.

Efallai yr hoffai RGR roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith atgyweirio hwn yn ystod ei gyflwyniad.

*Gofynnodd AE, os oedd 4 + 4 cerbyd yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin ar y llwybr hwnnw, ac a oedd hyn hefyd yn cynnwys beiciau modur.*

Atebodd PR y gallai beiciau modur ddefnyddio'r llwybr i'r naill gyfeiriad - y prif fater fater oedd confois cerbydau yn ceisio pasio'i gilydd a chreu problemau fel difrod tir ac erydiad. Felly, roedd system unffordd yn fwy priodol ar eu cyfer.

*Ychwanegodd AE nad oedd yn bosibl yn ei gyflwr presennol i gael beic cwad i fyny ac y byddai unrhyw welliannau'n cael eu croesawu.*

*Gofynnodd ER pwy oedd yn dechnegol gyfrifol am y llwybr hwn.*

Esboniodd PR mai cyfrifoldeb awdurdod y priffyrdd yw'r Fford Sirol Anosbarthedig hon (FfSA) – megis Cyngor Gwynedd yn yr achos hwn. Fodd bynnag, roedd y PC yn cynorthwyo i hwyluso'r gwaith hwn ac yn creu gwell dealltwriaeth a pherthynas waith â defnyddwyr cyfreithlon. Roedd yn bwysig cofio bod yn rhaid i unrhyw gerbyd sy'n defnyddio FfSA fod yn gyfreithlon ar y ffordd felly mae'n rhaid i'w cerbydau gael eu trethu, eu hyswirio, a meddu ar MOT dilys. Bydd methu yn hynny o beth hyn yn arwain at erlyniad.

*Dywedodd ER felly nad oedd y tirfeddiannwr yn gyfrifol am y materion cyflwr ar briffyrdd o'r fath.*

Ychwanegodd PR fod hyn yn wir oni bai bod tirfeddianwyr yn gwybod am unrhyw beryglon neu wedi creu unrhyw beth a allai fod yn berygl - ac mae hyn hefyd yn berthnasol i fynediad i dir neu Hawliau Tramwy Cyhoeddus yna roedd hwn yn fater arall - ac o dan Atebolrwydd Deiliaid mae dyletswydd arnynt i wneud rhywbeth yn ei gylch. Ond yn gyffredinol, yr awdurdod priffyrdd oedd yn gyfrifol am eu harwynebau ond yn ddealladwy nid yw FfSA yn flaenoriaeth.

**ii) Traphont Bermo - Diweddariad ar y gwaith a rhannau wedi cau Network Rail**

Dywedodd PR ei fod wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gau traphont arfaethedig yn y Bermo. Byddai'n cylchredeg hyn i'r gwasanaeth Wardeiniaid a phartïon eraill â diddordeb. Roedd hyn yn cynnwys yr holl ddyddiadau cau. [1]

Bydd y prif waith yn cau'r draphont rhwng y 12fed o Fedi tan y 12fed o Ragfyr ond o ystyried pa mor fympwyol yw’r tywydd yna gallai pethau newid felly y peth gorau fyddai i unrhyw un ei wirio yn gyntaf. Byddant yn cynghori ynghylch unrhyw ddewisiadau amgen trafnidiaeth sydd ar waith.

[1] Manylion cyswllt am wybodaeth: 03457 11 41 41
• bost crwales@networkrail.co.uk
• neu ymwelwch â’n gwefan
www.networkrail.co.uk/barmouth

Gofynnodd PR i RGR a oedd angen cau'r llwybr troed yn ffurfiol gan mai dim ond llwybr caniataol a roddwyd gan NR ydoedd.

Cadarnhaodd RGR y byddai'r cau ar gyfer mis Medi nesaf yn effeithio ar Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan.

Ond na fyddai angen cau'r draphont yn ffurfiol gan fod hwn yn llwybr caniataol yn unig. Fodd bynnag, byddai'n rhaid iddynt ddarparu llwybr amgen ar gyfer yr LlACC i Benmaenpwl er mwyn osgoi'r draphont pan fydd ar gau i'r cyhoedd.

Gofynnodd PR i EJW a oedd unrhyw wasanaethau bws amgen wedi'u cytuno hyd yma?

*Dywedodd EJW fod trafodaethau parhaus rhwng Trafnidiaeth Cymru ac NR, ond roedd hyn yn gymhleth gan fod angen y llwybrau trwodd hirach ar fws ar gyfer Machynlleth ond hefyd i gynnal gwasanaeth i'r pentrefi llai.*

Diolchodd PR i EJW am roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo.

*Ychwanegodd LA fod hyn hefyd wedi effeithio ar eu hamserlen o deithiau cerdded ar gyfer Gŵyl Gerdded Bermo ac roeddent wedi newid eu dyddiadau a'u teithiau cerdded i ddarparu ar gyfer hyn. Nid y 12fed o Fedi oedd y dyddiad gwreiddiol - yr 17eg ydoedd. Roedd hyn hefyd wedi eu gorfodi i ail-feddwl y ffordd maen nhw'n gweithredu'r wyl fel y gellir gwneud hyn mewn amgylchedd cymdeithasol - o ystyried ei bod hi'n anodd gweld beth fyddai angen rheoliadau Covid bryd hynny.*

## 6. Gohebiaeth

Dim

## 7. CNC - nodyn briffio yn ymwneud â'r Cod Cefn Gwlad

Soniodd PR fod CNC yn dal i ymgynghori â Lloegr fel y nodwyd yn y nodyn briffio a oedd yn egluro beth oedd wedi digwydd hyd yma a system codau CNC ar gyfer amrywiol weithgareddau. Roedd yn ddefnyddiol iawn eu cael i gyd mewn un lle.

Byddai'r PC yn cario'r cysylltiadau hyn.

Ychwanegodd y byddai Croeso Cymru eleni hefyd yn mynd ati i hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad trwy eu cynllun ADDO a fyddai'n ddefnyddiol. Byddai hyn hefyd yn galluogi negeseuon mwy cyson ar draws y sector. Roedd hyn yn bwysig hefyd o ystyried rhai o'r gweithgareddau negyddol a welsom - yn enwedig gwersylla anghyfreithlon, parcio gwael a thaflu sbwriel o ganlyniad i Covid.

*Gofynnodd HP a oedd CNC yn bwriadu cynhyrchu unrhyw daflenni gan dynnu sylw at y prif faterion i gyd-fynd â'r hyrwyddiad hwn.*

Dywedodd PR nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau o'r fath ond y byddai'n gofyn i ML (CNC) ddarparu unrhyw wybodaeth am hyn.

## 8. Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan - Diweddariad ar y datblygiadau yng Ngwynedd

Diolchodd RGR i'r aelodau am y cyfle i'w diweddaru ar hynt y LlACC.

Esboniodd mai ef oedd Swyddog Llwybr Arfordirol Cymru gyfan yn ardal Gwynedd. Roedd hyn yn ymestyn o bont Machynlleth i ffin Conwy ger Llanfairfechan yn y gogledd.

Dangosodd rai sleidiau o waith a grewyd yn 2020 - ond eglurodd fod Covid wedi gwaethygu eu hanawsterau wrth gwblhau eu rhaglen waith gan gynnwys cynnal a'i chadw.

Roeddent wedi gwneud gwaith sylweddol ar y FfSA uwchben Aberdyfi (fel y soniwyd yn gynharach) gan fod hwn yn rhan o'r rhwydwaith llwybrau arfordirol a oedd angen cryn waith draenio. Yn wreiddiol, nid oedd arian ar gael, fodd bynnag, gwnaethant gais llwyddiannus am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith gwella a chwblhaodd contractwr lleol y gwaith a oedd mewn tir anodd ac amodau anodd ar y ddaear. Fe wnaethant hefyd gwblhau rhywfaint o waith gwella draen fawr ger y dref.

Siom oedd darganfod yn ddiweddar bod rhai defnyddwyr 'off piste' yn ddiangen eto yn yr union ardal honno. Gall hyn fod oherwydd ei fod bellach yn rhy hawdd i'w ddefnyddio ac nid yn ddigon anodd, ond roedd hyn yn adlewyrchu'n wael ar y rhai sy'n ddefnyddwyr cyfrifol.

Soniodd PR ei fod wedi gofyn i gynrychiolydd GLASS drafod hyn gyda’r tirfeddiannwr i weld pa negeseuon y gallent helpu gyda nhw i annog y rhai hyn i roi'r gorau i wneud hyn. Roedd yn siomedig o ystyried bod cymaint o arian cyhoeddus wedi'i wario i'w wella.

Parhaodd RGR - gwnaed gwaith hefyd ar igam-ogam Harlech eleni a lle mae'n croesi'r rheilffordd a gosod rheiliau diogelwch newydd.

Roeddent hefyd yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o weithio gyda Network Rail i gael llwybr amgen ar hyd yr arfordir yn rhedeg o Lwyngwril i ardal Tonfannau. Mae hwn yn goridor cul ond byddai'n ddarn sylweddol o 5 milltir a hwn fyddai'r ail ran hiraf y cytunwyd arni ar yr LlACC yng Ngwynedd. Mae hyn yn dal i gael ei drafod ond byddai'n newid sylweddol gan fod y llinell bresennol ar ben y bryniau ar hyd FfSA.

Eleni roeddent hefyd wedi gwneud cais am gyllid i wneud gwelliannau amgylcheddol o fewn coridor llwybr yr arfordir ac mae rhai syniadau diddorol wedi dod ymlaen. Mae gan LlC ddiddordeb mawr mewn treialu hyn yng Ngwynedd trwy grŵp ar y cyd o LlC, CNC a Chyngor Gwynedd. Bydd y gwahanol syniadau yn cael eu 'cwmpasu' a gwneir penderfyniadau ar ble mae cynlluniau o'r fath yn addas ac yna'n ceisir ariannu hyn.

Byddant hefyd yn edrych ar ba rannau ellir eu gwneud yn fwy hygyrch ar gyfer defnydd pobl llai abl trwy wneud mân welliannau.

Mater lleol arall yw'r rhan i'r gogledd o glwb golff Harlech a cheisio cysylltu â'r hen ffordd ger y coetir trwy Ffridd Rasus a rhoi gwell cyswllt â'r dref yn hytrach na'r llinell bresennol trwy gaeau a thai.

Adroddodd, yn dilyn sawl cwyn a sylw negyddol (gan gynnwys y rhai gan y FfMLl) am gyflwr y gwaith paent ar bont Tonfannau. Roedd yn hapus i adrodd bod y contractwr gwreiddiol bellach wedi cytuno i hanner ariannu y gwaith i gael gwared ar yr hen baent ac ail-baentio'r bont - gyda Gwynedd yn darparu arian cyfatebol ar gyfer y gost hon. Gobeithio y bydd hyn yn digwydd dros yr haf i ddod.

Dros gyfnod y Covid roedd llawer o rannau o lwybr yr arfordir wedi dioddef gyda rhyw naw rhan yn cwympo i'r môr ac adrannau eraill wedi'u difrodi. Roedd y rhain yn cynnwys adrannau yng Nghricieth. Nefyn a Phorthmaethwy. Nawr bydd yn rhaid symud y rhain yn fewndirol ac mae hynny'n cynnwys gwaith sylweddol ac ychwanegol ar wahân i ddatblygiad parhaus y llwybr.

*Er mwyn achub hyn, credai EJW y dylid o bosibl ddefnyddio dull ar y cyd rhwng CG, CNC a'r PC i LlC i gynnig fel achos arbennig uwchlaw'r cyllid llwybr arfordirol arferol ar gyfer y sefyllfa hynod hon. Mae'n ymddangos yn annheg y dylid dargyfeirio arian LlACC i unioni'r rhain.*

Dywedodd RGR fod LlC wedi bod yn hael yn y gorffennol ac wedi cynorthwyo pan oedd y math hwn o sefyllfa wedi digwydd a chytunodd y byddai'n ddelfrydol ar bob cyfri i hyn ddod allan o ddyraniad cyllid ar wahân.

Manteisiodd PR ar y cyfle i ddiolch i RGR am ei waith ar FfSA Aberdyfi - mae hyn wedi achosi cryn bryder yn ddiweddar, ac roedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol iawn.

*Gofynnodd AE a allai riportio gwaith pont Tonfannau i'r Cyngor tref gan fod hwn yn fater a godwyd lawer gwaith ganddynt. Manteisiodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i RGR am weddill y gweithiau ar yr FfSA a'r LlACC.*

Dywedodd RGR fod hyn yn y drefn i wneud hynny.

*Diolchodd HP i RGR am ei bresenoldeb ac am y diweddariad hwn ar y LlACC.*

## 9. Ffordd / Llwybr ffordd y Cambrian – Diweddariad – Oliver Wicks

Wedi'i ohirio tan fis Mehefin

Esboniodd PR ei fod wedi gofyn i OW fynychu'r cyfarfod nesaf.

**Cytunwyd**

## 10. Rhaglen Wirfoddoli Cymdeithas Eryri – Mary Williams

Cyflwynodd MW ei hun fel Swyddog Cadwraeth gyda Chymdeithas Eryri.

Roedd nodau ac amcanion y Gymdeithas yn debyg i'r Parciau Cenedlaethol:

*“Gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri a hyrwyddo eu mwynhad er budd pawb sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio neu'n ymweld â'r ardal nawr ac yn y dyfodol”.*

Er mwyn galluogi hyn, roedd llawer o'u gwaith yn cynnwys gweithio gyda gwirfoddolwyr ar brosiectau cadwraeth ymarferol a dyma fydd canolbwynt ei chyflwyniad heno.

Roedd peth o'r gwaith yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol gyda'r CNC, Coed Cadw, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n delio â rhywogaethau goresgynnol - y ffromlys chwarennog a rhododendron ond hefyd gwaith cadwraeth arall - gan gynnwys diwrnodau hyfforddi a gweithgareddau ar gyfer plannu coed a gwaith cynnal a chadw llwybrau troed.

Dangosodd luniau sgrin amrywiol o’u Swyddogion a gweithgareddau gwirfoddol ac eglurodd eu bod bob amser yn barod i gynorthwyo sefydliadau eraill gyda’u gwaith cadwraeth.

Roedd clirio sbwriel hefyd yn rhan bwysig o'u gwaith ac roeddent wedi gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chyngor Gwynedd yn trefnu sesiynau clirio sbwriel ar draethau mewn lleoedd fel Harlech.

Esboniodd fod y Gymdeithas yn ymwneud yn fawr â'r Parc Cenedlaethol trwy gyfrwng y cynllun Croeso Nôl ar ôl cyfnod clo Covid - lle roedd gwirfoddolwyr yn cynnal patrolau sbwriel ac yn cynorthwyo'r cyhoedd gyda gwybodaeth o amgylch yr Wyddfa.

Enw'r cynllun newydd sydd ar waith i ddilyn y codi cyfyngiadau'r cyfnod clo nesaf yw `Caru Eryri` Bydd hon yn fenter debyg sy'n cael ei gyrru gan wirfoddolwyr tebyg i Croeso Nôl ac unwaith eto bydd ar y cyd â PCE. Yn sicr, roedd cyfnod Croes Nôl yn her o ystyried ein bod wedi gweld cymaint o ymwelwyr ychwanegol a gwahanol i'r ardal.

Bydd hyn yn rhedeg tan ddiwedd mis Medi.

Y gobaith oedd y gallai gwirfoddolwyr staffio lleoedd eraill yn y parc y flwyddyn i ddod, gan gynnwys Cadair Idris ac ardal Y Bala.

Eleni, gellid cynnig Unedau Hyfforddi Achrededig i wirfoddolwyr ar gyfer eu datblygiad personol.

Roedd yr hyn a ddywedodd RGR am wella bioamrywiaeth ar hyd stribedi arfordirol LlACC yn ddiddorol iawn a gobeithio y gallent gynnig helpu gyda hyn pe bai'r cyfle'n codi.

Manteisiodd PR ar y cyfle i fynegi ei ddiolch i'r Gymdeithas a'r swyddogion am eu cefnogaeth yn enwedig ar ôl y cyfnod clo mentrau Croeso Nôl a Caru Eryri. Roedd yn gobeithio y byddai mwy o bobl yn gwirfoddoli o dde'r PC.

Esboniodd fod mwyafrif eu gweithgareddau wedi bod yn y gogledd yn y gorffennol, ond eu bod yn awyddus i ehangu tua'r de gan obeithio y gallai aelodau'r FfMLl adnabod rhai pobl leol yn yr ardal a allai fod eisiau dod yn wirfoddolwyr gyda'r Gymdeithas, ac roeddent croeso i gysylltu â hi am eu manylion trwy gyfrwng y wefan.

Bydd y prosiect newydd yn cael ei lansio ddechrau mis Mehefin.

*Diolchodd HP i MW am ei chyfraniad heno gan obeithio y byddai mwy o wirfoddolwyr yn dod ymlaen yn y de.*

**11. Rheilffordd Llyn Tegid, Y Bala - Diweddariad Datblygu – Julian Birley**

Diolchodd JB i'r aelodau am ei wahodd yn ôl i roi diweddariad iddynt ar ddatblygiadau estyniad diweddaraf Rheilffordd Llyn Tegid, yn Y Bala.

Esboniodd fod y datblygiad rheilffordd newydd yn symud ymlaen yn gyson a'u bod wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan y gymuned, y cyhoedd yn gyffredinol, CNC a Croeso Cymru.

Ers iddo adrodd ddiwethaf i aelodau’r Fforwm y gobaith oedd y gall y gwaith ddechrau yn ddiweddarach eleni.
Eu cynllun oedd symud y derfynfa bresennol 1200m o'r orsaf Pen Y Bont bresennol - mae'n ynysig, nid oes cyfleusterau na pharcio yno ac mae'n golygu fod pobl yn gorfod cerdded i'r safle. Y syniad oedd ei symud i safle newydd yr orsaf yn y dref.

Er mai dim ond cilomedr o hyd ydyw, mae hwn yn brosiect heriol a dyma'r rheilffordd newydd gyntaf i gael ei hadeiladu yn y DU ar yr adeg hon.

Hyd yn hyn roeddent wedi codi oddeutu £1.5m mewn arian parod caled a gwasanaethau rhoddedig. Bydd y cais cynllunio manwl yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Mai. Roedd y broses o lunio cyflwyniad y cais cynllunio oddeutu £155k ac roedd y gost yn uchel oherwydd natur amgylcheddol sensitif yr ardal a lefel y manylder sy'n ofynnol ar gyfer y cais.

Bydd CNC - a fu'n gefnogol iawn i'r cynllun, yn ymgymryd â pheth o'r gwaith peirianneg wrth wneud eu gwaith uwchraddio gwerth £6.5m o waith arglawdd llifogydd Y Bala. Mae'r rhan hon yn cyfateb i oddeutu traean o'r llwybr a bydd y RhLIT yn cyfrannu £277k at hyn.

Adlewyrchir y gefnogaeth hon yn eu hymdrechion i godi arian - Yn y rownd ddiweddaraf o Chwefror 1af roedd angen y £50k olaf arnynt ac erbyn yr 28ain o Chwefror roeddent wedi dod i gyfanswm o £71k ac erbyn heddiw mae hyn oddeutu £90k. Roedd yn braf bod yr arian hwn wedi dod o bob rhan o'r byd a hefyd o'r ardal leol.

Ethos pwysig y prosiect yw y bydd Y Bala yn `gyrchfan` ac yn fuddiolwr i'r prosiect yn hytrach na dim ond lle i basio drwyddo. Bydd terfynfa'r rheilffordd yn helpu i ysgogi economi'r dref ac yn fan lle gall ymwelwyr adael eu cerbydau yn y maes parcio a mynd ar daith i lawr y llyn i Lanuwchlyn ac yn ôl a gobeithio lleihau nifer y ceir sy'n teithio yn ôl ac ymlaen.

Mae eu hymchwil marchnad eu hunain yn dangos y bydd eu hymwelwyr trên yn codi o'r 30,000 presennol i 55,000 sy'n gynnydd sylweddol - mae hyn yn trosi i amcangyfrif o wariant ychwanegol o £1.25m yn economi'r dref. Yn ogystal, bydd hyn yn creu 6 swydd amser llawn yn bennaf yng ngorsaf Y Bala a fydd gan Ganolfan Groeso i Dwristiaid,

cyfleusterau toiled hygyrch ac ystafell ddigwyddiadau. Ychwanegodd fod hyn yn amserol iawn o ystyried effaith ddinistriol Covid ar yr economi twristiaeth.

Dangosodd sleidiau o'r gwahanol bryniannau tir a'r hyn oedd yn weddill i'w wneud.

Gwahoddodd gwestiynau gan aelodau.

Ychwanegodd PR hefyd ei ddiolch am y diweddariad ar y prosiect cyffrous hwn a nododd y bydd y gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn aflonyddgar - yn enwedig i'r PC ond y bydd ganddo fuddion tymor hwy.
Gofynnodd pryd yr oedd disgwyl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno.

Dywedodd JB ei fod wedi dal hyn yn ôl nes bod proses ymgeisio CNC wedi'i chwblhau gan fod yn rhaid i'r ddau fynd law yn llaw. Ychwanegodd fod CNC wedi bod yn gefnogol iawn i'r prosiect hwn a bydd cydweithio yn golygu arbedion sylweddol iddynt.

*Llongyfarchodd EJW RHLlT a JB a'r hyn yr oeddent eisoes wedi'i gyflawni.*

*Diolchodd HP i JB am gyflwyniad a diweddariad diddorol iawn i'r aelodau.*

**12. Strategaeth Hamdden Ddrafft APCE**

Esboniodd PR fod hyn bellach yn barod ar ffurf ddrafft

Dangosodd gopi byr ar y sgrin a nododd, gobeithio y bydd hyn mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli (h.y., yna i fynd allan i ymgynghori arno). Esboniodd ei fod wedi bod yn ymgynghori â rhai unigolion sy'n cynrychioli amryw weithgareddau awyr agored ond nad oedd eto yn y parth cyhoeddus felly byddai aelodau'r FfMLl yn cael y cyfle cyntaf i weld hyn.

Dylanwadwyd yn fawr ar y ddogfen hon gan Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a pholisïau cenedlaethol eraill.

Roedd yn ceisio dilyn tueddiadau cenedlaethol a newidiadau mewn gweithgareddau a hwn hefyd oedd y tro cyntaf iddynt ddefnyddio `datganiadau gweithgaredd` ar gyfer pob un o'r gweithgareddau awyr agored penodol a oedd yn newydd, ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei groesawu.

Byddai'n cylchredeg hyn cyn gynted ag y cafodd ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli ac i gynulleidfa ehangach o randdeiliaid.

Byddai gan y fersiwn derfynol lawer o ffotograffau neu'r amrywiol weithgareddau a pheth graffeg a byddai'n bwynt cyfeirio defnyddiol yn hytrach na dogfen bolisi yn unig sy'n eistedd ar y silff.

Roedd yn bwysig bod aelodau'n rhoi eu barn ar hyn pan gânt y cyfle yn enwedig o ystyried yr arbenigedd sydd yn yr aelodaeth - tirfeddianwyr a defnyddwyr.

Roedd yr adran hygyrchedd wedi'i hailwampio'n llwyr gan fod y ddogfen flaenorol yn ddull `hen o feddwl' i raddau helaeth.

Fe'i gwnaed hefyd yng ngoleuni Covid a'r newidiadau a welsom mewn agendâu mynediad a lles dros y 12 mis diwethaf.

Gofynnodd DE ac EJW am gopïau printiedig os gwelwch yn dda.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau a wnaed, yna byddai'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo'n derfynol.

**13. Eitemau argymelledig ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf**

**i) Adborth gan is-grŵp CGHTC**

Soniodd PR fod yr is-grŵp wedi cyfarfod, a bod eu trafodaethau wedi bod yn ddiddorol, ac roedd yn gobeithio bod Wyn Williams o CG yn gweld hwn yn ymarfer defnyddiol.

Pwysleisiodd, os oedd gan unrhyw aelodau unrhyw syniadau neu arsylwadau ynghylch y broses CGHTC, y gallent gysylltu â WW yn uniongyrchol neu drwy PR a byddai'n falch o'u hanfon at CG.

**ii) Strategaeth Hamdden Ddrafft**
Fel y trafodwyd yn flaenorol

**iii) Llwybr y Fawddach - Diweddariad ar Fynediad i Geffylau / Marchogion**

Soniodd PR fod rhywfaint o waith rhwystr diogelwch wedi'i wneud yn seiliedig ar adroddiad yr ymgynghorydd ac roedd hyn yn dal i fynd yn ei flaen.

Roeddent yn obeithiol y byddai rhywbeth ar waith erbyn mis Medi eleni pe bai'n cael ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli. Roedd CNC hefyd yn awyddus i weithio gyda'r PC i ddarparu mynediad ceffylau ychwanegol (a newydd) yng Nghoed Y Garth sydd gyfagos i lwybr y Fawddach a fyddai'n ychwanegu rhyw 3km i'w rhwydwaith.

Byddai rheolau i feicwyr gadw atynt, ond roedd yn obeithiol y gallai hyn fod yn opsiwn llwyddiannus a llawer mwy diogel na'r ffordd.

**iv)** Argymhellodd YH ein bod yn gwahodd rhywun o Gwm Nod Glas i roi diweddariad i'r aelodau ar y prosiect hwn.

Byddai PR yn ceisio trefnu hyn.

**12. Unrhyw Fusnes Arall**

a) *Roedd DE yn dymuno mynegi ei ddiolch i CG a'r PC am wella'r mynediad wrth giât Ffordd y Traeth. Mae'r giât newydd yn welliant enfawr a hefyd y seddi newydd.*

Soniodd PR eu bod wedi trefnu ymweliad safle yn profi'r pedair olwyn newydd ac nad oedd yn bosibl mynd drwy'r giât fel yr oedd, felly roeddent wedi crybwyll hyn wrth CG. A nhw oedd wedi trefnu hyn.

*Soniodd DE ei bod yn anffodus bod grisiau yn y toiledau yn y lleoliad hwnnw ac nad oeddent yn hygyrch.*

Dywedodd PR y byddai'n sôn am hyn wrth CG.

b) Soniodd HP ei bod yn amlwg bod mapiau Google yn anfon cerbydau sy'n mynd am y maes parcio ar y ffordd arall yn y dyffryn sy'n dod i bendraw ac ddim yn mynd ddim pellach, ac roedd hyn wedi achosi rhai problemau.

Dywedodd PR y byddai'n edrych ar hyn a'i drafod gyda'r Swyddog GiS yn y PC a fyddai'n cysylltu â Google.

*c) Soniodd DE fod arwyddbost Mawddach yn dal ar goll o faes parcio'r Marian.*

Ymddiheurodd PR am hyn ac y byddai'n ymholi gan ei fod wedi gofyn iddo edrych i mewn iddo sawl gwaith.

**13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - 15fed Mehefin 2021**

**Diolchodd HP i'r holl swyddogion ac aelodau am eu presenoldeb yn y cyfarfod hwn**